# Parti Haf yr 80au RhCT

# Cwestiynau Cyffredin

**Ble alla i brynu tocynnau?**

Mae modd prynu tocynnau ar gyfer Parti Haf yr 80au RhCT ar-lein yn www.seetickets.com.

**Pa mor hir fydd hi'n ei gymryd i fy nhocynnau gyrraedd ar ôl eu prynu?**

Bydd e-docynnau'n cael eu hanfon drwy e-bost i'r cyfrif a gafodd ei ddefnyddio i'w prynu.

**Prynu tocynnau ar y diwrnod**

Os bydd tocynnau'n weddill, bydd Swyddfa Docynnau ar agor ym Mharc Coffa Ynysangharad o 11am tan 6pm ger mynedfa'r bont. Yma, ar y diwrnod, bydd modd i chi gasglu eich tocynnau a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gyda chi.

**Oes hawl gyda fi i ddod â bwyd i ardal yr achlysur?**

Nac oes, does dim hawl gyda chi i ddod â bwyd a diod i ardal yr achlysur. Bydd amrywiaeth o werthwyr bwyd, a bar, yn ardal yr achlysur, a bydd modd i chi brynu bwyd a diod oddi wrthyn nhw.

16:00 – Jagger & Woody / Kay and Katie DJs
16:55 – Local Rainbow
17:15 - Jagger & Woody / Kay and Katie DJs
17:30 – Tears for Beers
18:00 - Super choir
18:30 - Jagger & Woody / Kay and Katie DJs
19:30 - The 80s Live Show
20:40 - Jagger & Woody / Kay and Katie DJs
21:00 - Martin Kemp Back to the 80s DJ Live!
22:30 - Cyfyngiad amser

**Oes cyfyngiadau oedran ar waith?**

Gall pobl o unrhyw oedran ddod (cyn belled â bod gyda nhw docyn) ond dyma ofyn i rieni sydd â phlant ifainc ddod gyda nhw.

**Pryd fydd y gatiau'n agor?**

Bydd y gatiau'n agor am 4pm.

**Fydd y parc yn cau ar gyfer yr achlysur?**

Bydd y parc ar gau i'r cyhoedd o 12pm ar ddiwrnod yr achlysur.

**Pryd fydd yr achlysur yn gorffen?**
Mae'r achlysur i fod i orffen am 10:30pm.

**Fydda i'n gallu dod â chadeiriau a seddi i ardal yr achlysur?**
Does dim hawl dod â chadeiriau na seddi i ardal yr achlysur.

**Beth yw cod post y parc?**
Y cod post ar gyfer offer llywio â lloeren yw CF37 4PE. Bydd hyn yn mynd â chi i Barc Coffa Ynysangharad. Sylwch, does dim parcio o gwbl ym Mharc Coffa Ynysangharad. Mae modd dod o hyd i restr o feysydd parcio cyfagos yma.

**Fydd ardal arbennig i mi wylio'r perfformiad o'm cadair olwynion?**
Bydd platfform arbennig sydd wedi'i godi ar gael i'r sawl sydd mewn cadeiriau olwynion. Dim ond hyn a hyn o le sydd ar gael ar y platfform a does DIM modd cadw lle ymlaen llaw. Y cyntaf i'r felin fydd hi o ran y lleoedd sydd ar gael ar y diwrnod. Sylwch, ar gyfer pob cadair olwynion, dim ond un lle fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer pob cynhaliwr (bydd sedd yn cael ei darparu ar gyfer y cynhaliwr).

**Fydd cyfle i mi gwrdd â'r perfformwyr?**
Mae galw mawr am hyn, ond fydd dim cyfle i chi gwrdd â'r perfformwyr (yn rhad ac am ddim neu drwy dalu) trwom ni ar y diwrnod.

**Â phwy ddylwn i gysylltu os bydda i'n colli unrhyw eiddo yn yr achlysur?**
Os byddwch chi'n colli unrhyw beth ar y diwrnod, ewch i babell felen 'Be Sy' 'Mlaen' a gofyn i aelod o staff os oes unrhyw un wedi rhoi eiddo coll i mewn.
Os byddwch chi'n sylweddoli ar ôl yr achlysur eich bod chi wedi colli rhywbeth yn ystod un o'r cyngherddau, yna anfonwch e-bost at achlysuron@rctcbc.gov.uk.

**Beth sy'n digwydd os bydd hi'n bwrw glaw?**
Achlysur awyr agored yw hwn, felly dewch yn barod am bob math o dywydd. Bydd yr achlysur yn mynd rhagddo boed law neu hindda.

**Bydd y trefnwyr yn darparu bron i 2000 ponsio yn rhad ac am ddim. Bydd modd casglu'r rhain o babell felen Be Sy' 'Mlaen RhCT ar y diwrnod.**

**Beth nad oes hawl i mi ddod ag ef i'r achlysur?**
DOES DIM hawl dod â chamerâu proffesiynol, dronau na chyfarpar recordio i ardal yr achlysur.
DOES DIM hawl dod â photeli, caniau, cynwysyddion, alcohol na bwyd i ardal yr achlysur. Sylwch fod y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sydd ar waith ym Mhontypridd yn ei gwneud yn drosedd yfed alcohol mewn safle heb drwydded (ar y stryd neu mewn man cyhoeddus).

Does dim hawl dod â thân gwyllt, caniau mwg, polion baneri, ymbarelau, offer picnic, barbeciws nac eitemau tebyg i ardal yr achlysur.

Does dim hawl dod ag aerosolau, cyffuriau nac eitemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau i ardal yr achlysur.

Does dim hawl dod â bagiau dros faint A4.

Bydd bagiau'n cael eu harchwilio ger mynediad ardal yr achlysur.